

Dyddiad: 6 Tachwedd 2002

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Teitl: Lles yng Nghymru

Diben

1. Mae'r papur hwn yn hwyluso trafodaeth ar y ddogfen ymgynghori *Lles yng Nghymru*, a lansiwyd ar 24 Medi 2002. Anfonwyd copiâu o'r ddogfen at bob Aelod o'r Cynulliad cyn y dyddiad lansio.

Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer cynhyrchu *Lles yng Nghymru* ac yn cynnig esboniad o'r ymarfer ymgynghori sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae *Lles yng Nghymru* yn adeiladu ar y sylfaen a gawsom gan *Gwell Iechyd Gwell Cymru*, ac yn cynnig llwyfan cadarn ar gyfer rhagor o gyd-weithredu i ddiogelu a gwella iechyd pobl gan Lywodraeth y Cynulliad, y GIG, awdurdodau lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol, cyflogwyr a sefydliadau'r sectorau cyhoeddus a phreifat eraill.

Cefndir

3. Gwnaeth *Gwella Iechyd yng Nghymru* ymrwymiad i lunio cam nesaf *Gwell Iechyd Gwell Cymru* yn 2002. Mae *Lles yng Nghymru* (fel y'i gelwir bellach) yn datblygu gwaith Llywodraeth y Cynulliad ymhellach i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau trwy gyfrwng dull integredig o ymdrin â pholisïau a rhaglenni. Cymeradwyir y dull integredig hwn gan yr Athro Peter Townsend yn ei adroddiad *Targeting Poor Health*, sydd wedi'i fabwysiadu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

4. Mae'r ddogfen yn cynnwys pob un o feysydd polisi Llywodraeth y Cynulliad yn ei dro ac yn gwneud eu cysylltiadau â iechyd a lles yn fwy agored drwy ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael. Mae'n rhoi enghreifftiau o'r cynnydd a wneir tuag at bolisïau a rhaglenni integredig. Mae pob adran yn cloi gyda dwy thema. Mae'r adran gyntaf yn pwysleisio'r cam gweithredu mewn meysydd polisi eraill a all gyfrannu at iechyd a lles pobl. Mae'r ail adran yn adlewyrchu ar yr hyn y gall y GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol ei wneud i gyfrannu at gyflawni amcanion y meysydd polisi eraill.

5. Yn ogystal â rhoi pwysau ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae iechyd gwael yn cael effaith fawr ar unigolion a'u teuluoedd, ac ar fusnesau a'r economi. Ni ellir osgoi pob iechyd gwael, ond mae modd osgoi rhywfaint ohono. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae *Gwell Iechyd Gwell Cymru* wedi gwneud llawer i godi ymwybyddiaeth o'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sydd yn effeithio ar iechyd pobl. Mae hefyd wedi helpu nifer o sefydliadau, yn enwedig awdurdodau lleol, i ddatblygu eu rôl i helpu pobl i wella eu hiechyd.

6. Mae *Lles yng Nghymru* yn adeiladu ar y sylfaen a gawsom gan *Gwell Iechyd Gwell Cymru*. Mae'n datblygu gwaith Llywodraeth y Cynulliad ymhellach i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau trwy gyfrwng dull integredig o ymdrin a pholisïau a rhaglenni. Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gynnwys iechyd mewn polisiau a rhaglenni eraill ac mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at hynny. Ond mae modd i ni wneud rhagor.

7. Bydd y gwelliannau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu rhoi yn eu lle ar gyfer y GIG yn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd gofal iechyd ymhellach, ac yn gofalu bod pawb yn cael gwell chwarae teg a gwell mynediad i wasanaethau ysbyty. O ran y Byrddau Iechyd Lleol newydd, bydd hybu iechyd a lles ac atal clefydau cyn bwysiced â gofalu bod y gwasanaethau iechyd yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd hyn yn cael ei atgyfnerthu gan gyd-ddyletswydd y Byrddau Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol i baratoi strategaethau lleol ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar y cyd â sefydliadau eraill a thrwy ymgynghori â phobl leol. Mae'r ddogfen hon yn cynnig arweiniad a chyd-destun cenedlaethol i'r strategaethau lleol hyn. Mae *Lles yng Nghymru* yn gam sylweddol arall ymlaen yn ein hymdrechion i wella iechyd a lleihau'r anghydraddoldebau iechyd rhwng un cymuned a'r llall. Gall fod o gymorth i godi pontydd rhwng sectorau a sefydliadau fel eu bod yn cydweithredu mwy er mwyn hybu lles yn y cymunedau.

8. Mae *Lles yng Nghymru* yn gam pellach ymlaen gan Lywodraeth y Cynulliad wrth iddi ddatblygu dull mwy integerdig o gyflawni canlyniadau polisi. Mae polisiau a rhaglenni integredig, wedi'u datblygu o gwmpas partneriaethau cadarn, yn ganolog i ddull Llywodraeth y Cynulliad o weithredu. Mae'r ddogfen yn gosod gwasanaethau iechyd, iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol yn y cyd-destun hwnnw:

- Mae'n pwysleisio pa mor berthnasol yw iechyd a lles ym mhob maes polisi, ac yn tanlinellu mor bwysig yw iechyd pobl i'r economi.
- Mae'n pennu argymhellion gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gweithio gyda llu o sefydliadau a grwpiau a all helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd.
- Mae'n gofyn i wasanaethau iechyd, iechyd a cyhoedd a gwasanaethau gofal wneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o adeiladu cymunedau cryf ac i amcanion y meysydd polisi eraill yn eu gwaith beunyddiol.

- Mae'n darparu cyfeiriad a chyd-destun cenedlaethol ar gyfer y *Strategaethau Iechyd Lleol, Gofal Cymdeithasol a Lles*, y bydd yn rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol eu paratoi ar y cyd â sefydliadau eraill a thrwy ymgynghori a'r cyhoedd o fis Ebrill 2003. Mae *Lles yng Nghymru* wedi'i anelu at bob sefydliad a grp a all gyfrannu mewn rhyw ffordd at wella lles pobl.

9. Rydym wedi symud ymlaen yn y gwaith o ddwyn ynghyd meysydd polisi, er enghraifft, yn y rhaglenni *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* a rhaglenni *Amcan 1*, ym maes addysg trwy gyfrwng *Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru*, ac mewn strategaethau megis y *Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol Cymru ar ei Hennill* sy'n cynnwys *Safonau Iechyd Corfforaethol Llywodraeth y Cynulliad*. Mae iechyd hefyd yn cael sylw mewn strategaethau a fframweithiau eraill megis y *Strategaeth Tai Genedlaethol, Cartrefi Gwell i Bobl Cymru*, y strategaeth ar gyfer pobl hn *Pan rwyf yn Hen a Pharchus* a'r *Fframwaith Plant a Phobl Ifanc*. Megis dechrau yw hyn.

Iechyd a lles

10. Mae'r syniad o les yn brawf cryf o'r graddau y mae polisiau a rhaglenni yn dod at ei gilydd i leihau anghydraddoldebau mewn iechyd ac i gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae lles cadarn yn nodwedd amlwg o gymunedau cryf a bywiog. Mae lles pobl yn dibynnu ar nifer o bethau. Mae'r rhain yn cynnwys: diddordebau pobl ac i ba raddau mae yna ymdeimlad o berthyn i gymuned, a'u gallu i gael mynediad iddo, eu hapusrwydd a theimladau o hyder a hunan-barch, eu hiechyd a'u diogelwch. Mae hefyd yn cynnwys eu sicrwydd - ariannol ac fel arall, y gwasanaethau, y cyfleusterau a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, y gofal a'r gefnogaeth sydd ar gael yn ôl y galw, a'u cysur ac ansawdd eu bywyd yn gyffredinol.

11. Mae'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar fywydau unigolion yn pennu eu lles. Dim ond wrth fynd i'r afael a'r ffactorau hyn y gallwn ni wella lles yn y tymor hir. Gall diogelu a gwella iechyd pobl wneud cyfraniad sylweddol i'w lles.

Datblygu cynaliadwy

12. Rhaid i Gymru fod yn iach ar gyfer y dyfodol, ac mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae dimensiynau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bob datblygiad, a does dim modd i ddatblygiadau fod yn gynaliadwy oni bai fod cydbwysedd rhwng y ffactorau gwahanol sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd yn gyffredinol. Mae angen neilltuo digon o adnoddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol fel y gallant fwynhau lefelau lles sydd o leiaf gystal â'n rhai ni. Mae cysylltiad agos rhwng iechyd pobl a datblygu cynaliadwy.

13. Mae datblygu pobl yn hollbwysig ac yn allweddol ar gyfer gwella lles fel rhan o ddatblygu cynaliadwy. Mae hyn, yn ogystal â'r camau gweithredu ehangach i gryfhau cymunedau, yn llawn mor bwysig ag adfer iechyd yn dilyn afiechyd a blynyddoedd o fyw'n afiach.

Anghydraddoldebau Iechyd

14. Mae disgwyliad oes pobl Cymru yn codi, ond nid yw'r boblogaeth i gyd yn mwynhau'r un lefel o iechyd da. Mewn rhai rhannau o Gymru, mae disgwyliad oes pobl 5 mlynedd yn is na phobl mewn rhannau eraill, ac mae gwahaniaethau clir rhwng grwpiau cymdeithasol gwahanol. Mae hyn yn annerbyniol.

15. Mae anghydraddoldebau iechyd yn aml yn deillio o ddyddiau plentyndod gan fod pobl yn wynebu amgylchiadau ac amgylcheddau economaidd tlotach, ynghyd â llai o gyfleoedd. Mae pobl dan anfantais oherwydd tlodi ac amddifadedd. Mae'r rhain yn effeithio ar iechyd a lles pobl, sydd yn effeithio ar ragolygon addysgol ac economaidd, ac yn eu tro, yn effeithio ar iechyd a lles. Mae mwy o berygl i fyw'n afiach fod yn barhaol ymhlith pobl ifanc mewn amgylchiadau o'r fath.

Pwy sy'n gyfrifol?

16. Nid cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad neu'r GIG yn unig yw iechyd. Mae'n rhaid i bawb sylweddoli ein bod ni i gyd yn rhannu'r cyfrifoldeb am iechyd a lles. Mae hyn yn cynnwys unigolion a sefydliadau, gan gynnwys pob adran o lywodraeth leol, sefydliadau cymuned a gwirfoddol, cyflogwyr a busnesau.

17. Mae gan gynghorau lleol ran bwysig i'w chwarae a hwythau'n arwain eu cymunedau ac yn cynnig rhychwant mor eang o wasanaethau. Mae gan fudiadau gwirfoddol ran allweddol i'w chwarae hefyd. Mae rhai unigolion, yn sgil eu gwaith, yn gallu helpu eraill i wella eu lles, er enghraifft: cynghorwyr lleol, arweinwyr cymunedau, athrawon, rheolwyr, a gweithwyr cymuned

i enwi dim ond rhai.

18. Dyma'r cyfrifoldebau ar y cyd, yn fras:

- Y Cynulliad a sefydliadau'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan gynnwys cyflogwyr - yn gyfrifol am ddarparu cyfleoedd a gwasanaethau, a chreu'r amodau i helpu pobl i warchod a

gwella'u hiechyd.

- Unigolion - yn gyfrifol am eu hiechyd eu hunain ac am iechyd eu plant.

19. Mae angen mwy na sefydliadau unigol yn gweithio ar eu pennau eu hunain os ydym i lwyddo. Mae llwyddiant yn amodol ar weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, ac mae hyn yn parhau i ddatblygu yng Nghymru. Mae pob corff a grp - awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau GIG, a Thimau Gofal Iechyd Sylfaenol a chyrff GIG eraill, cyflogwyr, asiantaethau cenedlaethol, a sefydliadau cymuned a gwirfoddol - yn gallu chwarae eu rhan trwy ymestyn eu gorwelion i ystyried dylanwad neu ddylanwad posibl eu gwasanaethau a'u gweithredoedd ar wella lles pobl.

Yr un yw'r nod er bod y geiriau'n amrywio

20. Defnyddir llawer o eiriau i ddisgrifio gwasanaethau a gweithrediadau cyhoeddus. Ystyriwch iechyd er enghraifft. Mae geiriau megis '*iechyd y cyhoedd*', '*hybu iechyd*', '*gofal iechyd*', '*gofal cymdeithasol*', a '*gwasanaethau cymdeithasol*' yn gyffredin iawn. Ewch â hyn gam ymhellach, ac ym maes llywodraeth leol, , *mae 'iechyd yr amgylchedd' a 'diogelu'r cyhoedd'* yn swyddogaethau allweddol, ac mae '*iechyd a diogelwch*' yn un o ofynion pwysig byd busnes.

21. Rydym yn defnyddio'r geiriau hyn wrth sôn am y sefydliadau â'r bobl sydd a'r arbenigedd angenrheidiol, ac maent yn rhan o'r strategaethau a'r cynlluniau sy'n pennu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Ond gall y llu o dermau hyn beri dryswch neu gallant greu rhwystrau artiffisial i gydweithio. Wrth fynd ati i ddehongli terminoleg, cofiwch mai'r un yw'r nod yn y pen draw - diogelu a gwella iechyd.

Gwasanaethau iechyd a gofal mewn goleuni newydd

22. Mae gwasanaethau iechyd, iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol yn elfennau hanfodol o'r dull mwy integredig sydd ei angen wrth lunio polisiau. Yn anffodus, mae llawer o bobl yn cysylltu'r geiriau 'iechyd' a'r 'GIG' â 'gwaeledd' a 'thriniaeth' neu 'ysbytai'.

23. Mae pobl yn dueddol o feddwl am y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol fel costau yn hytrach na buddsoddiad ar gyfer datblygu gwlad gryfach, decach a mwy ffyniannus. Hwyrach bod hyn yn wir o ran costau trin iechyd gwael y gellid ei osgoi, ond yn gyffredinol mae'r gwasanaethau yn gryn fuddsoddiad yn ein dyfodol ni. Maent yn gofalu am iechyd darpar-famau a babanod, ac yn helpu rhieni i fagu plant. Maent yn cyfrannu at yr economi trwy helpu i gadw pobl mewn gwaith, eu helpu i ddychwelyd i waith, a thrwy helpu pobl i fyw'n hwy ac i fod yn annibynnol yn eu henaint.

24. Mae'r gwasanaethau iechyd a gofal o dan bwysau aruthrol. Mae hyn yn rhannol yn ganlyniad arloesi parhaus, sy'n golygu bod modd gwneud mwy nag o'r blaen. Mae hefyd yn rhannol oherwydd bod gan y cyhoedd ddisgwyliadau uwch a hefyd am fod rhagor o bobl yn byw'n hn. Fodd bynnag, mae rhan sylweddol o'r pwysau'n deillio o drin damweiniau ac anafiadau, a chanlyniadau ysmegu, alcohol a

chamdefnyddio cyffuriau, a'r risgiau eraill mae pobl yn eu cymryd gyda'u hiechyd. Nid oes modd atal pob gwaeledd ond gallwn osgoi llawer iawn ohono, a dylid parhau i gydnabod pwysigrwydd atal iechyd gwael.

25. Mae gwasanaethau iechyd a gofal hefyd yn gyflogwyr a phrynwyr nwyddau a gwasanaethau ar raddfa fawr sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at yr economi lleol a chenedlaethol. Gallant, felly, wneud cyfraniad pwysig i amcanion polisi eraill ac mae hyn yn rhan o'n dull integredig.

Yr isadeiledd a'r sgiliau cywir

26. Mae angen isadeiledd cadarn a chynllunio effeithiol i gefnogi camau gweithredu. Bydd gan y Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd Gwladol sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o ailwampio'r GIG yng Nghymru yr arbenigedd i gefnogi gweithredu amlddisgyblaeth a fydd yn croesi ffiniau polisiau a sefydliadau. Bydd Canolfan Iechyd newydd Cymru yn ffynhonnell wybodaeth a chynghor annibynnol ar ddiogelu a gwella iechyd y cyhoedd. Bydd y datblygiadau yn gymorth i ddatblygu ymhellach y sail dystiolaeth a diwylliant o werthuso, a bydd dros gyfnod o amser o gymorth i ddangos yr elw a gafwyd o'r buddsoddiad.

27. Bydd gan y Byrddau Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol, ar y cyd ag eraill, ddyletswydd i baratoi strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Bydd hyn o gymorth i roi hwb pellach i'r agenda lles. Bydd cyfres o dargedau a dangosyddion cenedlaethol ar gyfer iechyd ac anghydraddoldebau iechyd yn atgyfnerthu hyn. Mae'r rhain yn cael eu datblygu ar hyn o bryd yn dilyn ymarfer ymgynghori ar wahân.

Lles yng Nghymru

28. O ystyried ei nod o ddatblygu dull mwy integredig, mae *Lles yng Nghymru* wedi'i strwythuro o gwmpas meysydd polisi Llywodraeth y Cynulliad.

29. Mae pob adran yn disgrifio'r cysylltiadau rhwng iechyd a lles a'r maes polisi dan sylw. Dangosir yr effeithiau ar iechyd a lles trwy ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael, a rhoddir enghreifftiau o'r cynnydd a wneir tuag at bolisiau a rhaglenni integredig. Mae pob adran bolisi'n cloi gyda dwy thema. Yn gyntaf, cinigion ar gyfer gweithredu pellach a all gyfrannu at iechyd a lles. Yn ail, yr hyn y gofynnir i'r GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol ei wneud i gyfrannu at gyflawni amcanion y meysydd polisi eraill.

30. Mae dau beth yn sylfaen i ddull Llywodraeth y Cynulliad. Yn gyntaf, ymrwymiad i'r tymor hir ac i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus sy'n cefnogi pobl, yn rhwystro problemau ac yn creu cyfleoedd; ac, yn ail, ymrwymiad i sicrhau chwarae teg fel y gall pawb gael mynediad i'r gwasanaethau a'r cyfleoedd angenrheidiol ar gyfer byw'n iach a bod yn fodlon eu byd.

Ymgynghoriad

31. Dosbarthwyd y ddogfen hon a'r fersiynau cryno ohoni yn eang i sefydliadau a chyfranddeiliaid allweddol. Mae fersiynau o'r ddogfen ar gael hefyd mewn print bras, ar gasét sain ac mewn Braille ac maent wedi cael eu defnyddio. Rydym yn croesawu barn plant a phobl ifanc drwy gyfrwng Llais Ifanc a Chynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru, er enghraifft. Mae grwpiau trafod yn cael eu trefnu i geisio cael barn sefydliadau cydraddoldeb a barn pobl o amrywiaeth o gymunedau.

32. Cyhoeddir yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Bydd pob ymateb yn cael ei gydnabod, ac oni fydd yr awdur yn dymuno bod yn anhysbys, bydd copïau o'r ymatebion ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Cynhelir dadansoddiad o'r sylwadau a dderbynnir a darperir manylion ar gyfer dadl yn y cyfarfod llawn.

Yr Amserlen

33. Lansiais '*Lles yng Nghymru*' yn destun ymgynghori ar 24 Medi 2002. Bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 19 Tachwedd 2002. Trefnwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer 17 Rhagfyr 2002.

Cydymffurfio

34. Mae'r Ddeddf Weinyddiaeth Iechyd 1919 yn ymwneud â chamau a gymerir ym maes iechyd pobl. Mae'r Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1997 yn cynnwys gwasanaethau sy'n ymwneud â iechyd. Mae'r grymoedd sy'n gysylltiedig â'r ddwy Ddeddf wedi eu trosglwyddo i'r Cynulliad ac wedi'u dirprwyo i'r staff. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi grym i'r Cynulliad gymryd camau sy'n arwain at arfer unrhyw un o'i swyddogaethau neu i'w hwyluso (Adran 40). Mae adran 85(2) yn ymdrin â gwariant. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb.

Cyllid

35. Efallai na fydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd oherwydd gall polisiâu a weithredir gan Adrannau eraill hefyd gael effaith bositif ar iechyd yng Nghymru. Gan fod y polisi'n ymwneud â lle mae'r arian yn cael ei wario yn hytrach na faint o arian sy'n cael ei wario, disgwylir y bydd unrhyw argymhellion sy'n ymwneud â pholisi Iechyd yn cael eu cynnwys o fewn darpariaeth gyffredinol Prif Grwpiau Gwariant y Gwasanaethau Iechyd a Gymdeithasol a gymeradwyir gan y Cynulliad. I bob diben, bydd gweithredu yn dibynnu ar pa mor gyflym y bydd y GIG yn llwyddo i wneud y newidiadau yn y meysydd gwariant. Bydd y gweithredu'n digwydd o fewn y canllawiau presennol.

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyswllt: Mr Ceri Breeze, Yr Is- Adran Strategaeth Iechyd y Cyhoedd

Ffôn: 029 2082 3040